


Trefdraeth

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER: TREFDRAETH TREF AC ABER - 1.3 milltir (2.0 km)

TREFDRAETH, LÔN Y FELIN - 1.0 milltir (1.6 km)

TREFDRAETH PARROG - 0.5 milltir (0.8 km)

TRAETH TREFDRAETH - 1.4 milltir (2.2 km)

CLUDIANT CYHOEDDUS: Cyfeirwch at wefan Cyngor Sir Benfro:


www.sir-benfro.gov.uk/llwybrau-bysiau-ac-amserlenni/llwybrau-bysiau-rhestr-yr-holl-fysiau

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- Trefdraeth Tref ac Aber
- Trefdraeth, Lôn y Felin
- Trefdraeth Parrog
- Traeth Trefdraeth
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toileddau Cyhoeddus
- Safle Bws
- Safle Bws (haf yn unig)



Trefdraeth

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Cyfeiriwch at wefan Cyngor Sir Benfro:

www.sir-benfro.gov.uk/llwybrau-bysiau-ac-amserlenni/llwybrau-bysiau-rhestr-yr-holl-fysiau

Trefdraeth Tref ac Aber

Pellter: 1.3 milltir (2.0 km)

Cyfeirnod map: SN054396

Cymeriad: Cerdded ar balmentydd ag arwyneb arnynt, golygfeydd o'r aber.

Dim sticlau na grisiau, y rhan fwyaf ag arwyneb.

O'r maes parcio, trowch i'r dde arno i'r heol. O'r arosfan bysys, cerddwch yn ôl ar hyd yr heol i mewn i'r dref. Trowch i'r dde ar y diwedd ac wrth y groesfan nesaf, trowch i'r dde i mewn i Heol Parrog (arwydd at y Parrog). Dilynwch yr heol i lawr ac, ar ôl y tai ar y dde, trowch i'r dde arno i Lwybr yr Arfordir wrth y mynegbost. Dilynwch y llwybr ar hyd yr aber ac wrth y mynegbost trowch i'r dde (arwydd YHA) arno i'r llwybr, sy'n troi i mewn i Heol Santes Fair Isaf. Wrth y groesfan, trowch i'r dde i mewn i East Street ac i'r dde wrth y groesfan nesaf i mewn i Heol Hir, yn ôl i'r arosfan bysys a'r maes parcio.

Trefdraeth, Lôn y Felin

Pellter: 1.0 milltir (1.6 km)

Cyfeirnod map: SN054387

Cymeriad: Caeau ag anifeiliaid, cerdded ar lôn dawel, coetir.

2 sticil. Grisiau, llethrau serth steep.

O'r maes parcio, trowch i'r dde er mwyn mynd ar yr heol. O'r arosfan fysiau, gallwch gerdded yn ôl ar hyd yr heol i'r dref. Ar y groesffordd, ewch yn syth ymlaen, i fyny Stryd y Farchnad. Ewch yn syth dros y groesffordd nesaf, ac i fyny Stryd y Castell, sy'n troi i lwybr. Ewch i fyny'r grisiau, troi i'r dde, a dilyn y llwybr at y gyffordd 'T'. Ewch i'r chwith yno, ac i fyny Lôn y Felin. Ewch drwy'r gât sydd wrth y grid gwartheg, a dilynwch y lôn i'r dde. Edrychwch am yr arwyddbost ymlaen sydd wrth y gât fetel. Ewch drwy'r gât ac i lawr y llwybr cerdded. Ar ddiwedd y llwybr, ewch dros y sticil a dilyn y llwybr troed amlwg sydd yn mynd i lawr y ffordd. Croeswch y ffordd, trowch i'r

dde, a'i ddilyn heibio i'r orsaf betrol.

Yna, trowch i'r dde i Stryd Hir, ac yn ôl i'r arosfan fysiau a'r maes parcio.

Trefdraeth Parrog

Pellter: 0.5 milltir (0.8 km)

Cyfeirnod map: SN048397

Cymeriad: Golygfeydd o'r aber, peth cerdded ar heolydd bach.

2 sticil, 1 giât mochyn.

O'r arosfan bysys parhewch i fyny'r heol. O'r maes parcio trowch i'r dde arno i'r heol. Dilynwch yr heol am ychydig lathenni nes i'r llwybr troed ddechrau ar y dde. Dilynwch y llwybr troed heibio i'r tai nes cyrraedd 'Rock House'. Trowch i'r chwith i fyny'r heol ac, ar ôl y tai ar y dde, trowch i'r dde wrth y groesffordd ac i fyny'r trac mynediad. Ychydig cyn i'r trac rannu'n ddwy, chwiliwch am sticil garreg yn y clawdd ar y dde, croeswch y sticil a dilyn y llwybr wrth ymyl y cae, gyda'r clawdd ar y chwith. Croeswch y sticil a dilynwch y trac ag arwyneb llydan am ychydig lathenni, yna cymerwch y llwybr rhwng 'Maes y Brenin' a 'Bryn y Don'. Wedi cyrraedd llwybr yr Arfordir, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr glan môr. Mae'r llwybr hwn yn cael ei orchuddio pan fydd y llanw'n uchel, ond pan fydd y llanw'n isel parhewch ar hyd y traeth a throwch i'r dde i fyny llithrffordd, yna i'r chwith ar unwaith, a dilynwch y llwybr yn ôl i'r maes parcio a'r arosfan bysys. Pan fydd y llanw'n uchel, chwiliwch am risiau yn y wal lechi gydag arwydd 'high tide alternative' a cherddwch i fyny'r grisiau, trowch i'r chwith, gan aros yn agos at y wal (cadwch oddi ar y glaswellt os gwelwch yn dda). Trowch i'r dde ar ddechrau'r dreif ac i fyny'r grisiau gyferbyn. Dilynwch y llwybr caeedig o amgylch, i lawr y grisiau, yna trowch i'r chwith, yna i'r dde, at y llwybr yn ôl i'r llwybr glan môr. Dilynwch y llwybr yn ôl i'r maes parcio a'r arosfan bysys.

Traeth Trefdraeth

Pellter: 1.4 milltir (2.2 km)

Cyfeirnod map: SN054406

Cymeriad: Twyni tywod, traeth ac ychydig o gerdded ar gwrs golff.

Dim sticlau na grisiau. Disgyniad anwastad arno i'r aber, tywod.

Chwiliwch am giât a mynegbost ar ffin y maes parcio gwaelod (neu ochr chwith). Ewch drwy'r giât ac yn syth ymlaen, gan ddilyn y marcwyr llwybr ar draws y cwrs golff. Wedi gadael y cwrs golff, dilynwch y llwybr uwchben yr aber, ewch yn syth ymlaen at y mynegbost, yna trowch i'r dde'n siarp arno i'r aber, ychydig cyn y tŷ gwyn. Dilynwch yr afon i lawr a, phan ddaw'r twyni tywod i ben, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y traeth gan gadw'r twyni ar y dde. Trowch i'r dde i fyny'r llithrffordd, yn ôl i'r arosfan bysys a'r maes parcio.

